**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465 (FFORDD YMADAEL TUA'R GORLLEWIN, CYFNWEIDFA LLAN-FFWYST, SIR FYNWY) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A465, neu gerllaw iddi wrth Gyfnewidfa Llan-ffwyst, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio cerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin cefnffordd yr A465 wrth Gyfnewidfa Llan-ffwyst yn Sir Fynwy.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin sy'n dymuno ymadael â'r gefnffordd fydd parhau tua'r gorllewin i ymadael wrth Gylchfan Glanbaiden, ailymuno â'r A465 tua'r dwyrain i Gyfnewidfa Llan-ffwyst ac ymadael â'r gefnffordd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad yn weithredol dros nos (20:00 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch) o 10 Gorffennaf 2023 hyd 15 Gorffennaf 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A465 TRUNK ROAD (WESTBOUND OFF-SLIP ROAD, LLANFOIST INTERCHANGE, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A465 trunk road at Llanfoist Interchange, Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than vehicles being used by the emergency services or for the works, from proceeding along the entire length of the westbound off slip road of the A465 trunk road at Llanfoist Interchange in the County of Monmouthshire.

The alternative route for westbound vehicles wishing to leave the trunk road will be to continue westbound to exit at Glanbaiden Roundabout, re-join the A465 eastbound to Llanfoist Interchange and leave the trunk road.

It is expected that the prohibition will operate overnight (20:00 hours to 06:00 hours) from 10 July 2023 until 15 July 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government